| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 18 Gorffennaf 2024 |
| **Pwnc:** | Log Gweithredodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm Dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn hysbysu aelodau'r Pwyllgor am statws y gweithredoedd / penderfyniadau y cytunwyd arnynt. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Yn ei gyfarfod ar 18 Ebrill 2024, derbyniodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adroddiad yn rhoi gwybod iddynt am ganlyniad darn o waith a gwblhawyd i fodloni gofynion Datganiad Sefyllfa'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) mewn perthynas â Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol ar Heddlu 2022 a oedd yn argymell bod pwyllgorau archwilio'n gwerthuso eu heffaith a nodi meysydd i'w gwella.

1.2. Gofynnwyd i aelodau ystyried canlyniad yr adroddiad, argymhellion CIPFA ar gyfer gwella a'r camau y mae rheolwyr ac aelodau'r Pwyllgor yn eu cynnig i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

1.3. Yn ystod trafodaeth ynglŷn â sut y gallai'r Pwyllgor gael mwy o effaith a bod yn fwy rhagweithiol, yn hytrach nac ymatebol, awgrymodd aelod y dylid cadw log gweithredoedd ar ôl pob cyfarfod er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor fonitro'r gweithredoedd/penderfyniadau y cytunwyd arnynt o ran eu cynnydd a'u cwblhau.

## 2. Argymhellion

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r camau y manylir arnynt yn y tabl isod a'i fod yn fodlon â'r camau a roddwyd ar waith.

## Log Gweithredoedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | 18/04/24 | 8 | Yn y dyfodol, diwygio ffurf a chynnwys adroddiadau sy'n ymwneud ag adolygiadau cenedlaethol a'u hargymhellion, yn unol â'r awgrym. | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol | Adroddiad nesaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024. | |
| 5 | 18/04/24 | 9 | Yn y dyfodol, dylai adroddiadau gan Archwilio Cymru gynnwys adroddiad eglurhaol sy'n nodi pwrpas pob adroddiad a beth a ddisgwylir gan y Pwyllgor wrth ei ystyried. | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol | Mae adroddiad eglurhaol bellach yn cyd-fynd â holl adroddiadau Archwilio Cymru a gyflwynwyd i'r Pwyllgor. | Cwblhawyd |
| 6 | 18/04/24 | 13 | Yn y dyfodol, dylai'r Adroddiad Seiberddiogelwch Blynyddol gynnwys unrhyw achosion (os bu rhai) lle mae amddiffynfeydd TG / seiberddiogelwch y Cyngor wedi cael eu goresgyn a'r camau adfer a gymerwyd. | Rheolwr TG | Adroddiad nesaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2024. | |
| 7 | 27/06/24 | 6 | Y Pennaeth Archwilio a Risg i ddiwygio adroddiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2023-24 i ddangos bod y Cynghorydd Geraint Bebb wedi mynychu hyfforddiant WLGA ar Sgiliau Cadeirio Effeithiol ar 11 Hydref 2023. | Pennaeth Archwilio a Risg | Adroddiad wedi'i ddiwygio. | Cwblhawyd |

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | 27/06/24 | 7 | Pennaeth Archwilio a Risg i drefnu sesiwn ar liniaru risg a chyflwyniad i Ddeallusrwydd Artiffisial o fewn rhaglen hyfforddi'r Pwyllgor ar gyfer 2024/25. | Pennaeth Archwilio a Risg | | |
| 9 | 27/06/24 | 7 | Cyflwyno diweddariad pellach ar Gynllun Gweithredu Adolygu Effeithiolrwydd y Pwyllgor ar ddiwedd chwe mis. | Pennaeth Archwilio a Risg | Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn cyflwyno diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr 2024. | |
| 10 | 27/06/24 | 9 | Dylid cynnwys monitro nifer y bobl mewn anweithgarwch economaidd fel rhan o set ddata tueddiadau poblogaeth y Cyngor. | Rheolwr Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol | Bydd y Cyngor yn sefydlu gwaelodlin ar gyfer anweithgarwch economaidd fel rhan o ddadansoddiad economaidd-gymdeithasol ehangach o boblogaeth yr Ynys. | Ar y gweill – bydd yn cael ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2024 |